

TREFNIADAU 'SWIGOD' NEWYDD Y 6ED

24/11/20

Annwyl ddisgybl a rhiant / warcheidwad,

Braf fydd eich croesawu yn ôl ar ddydd lau'r 26ain o Dachwedd. Gobeithio bod y gwersi ar lein wedi bod yn fuddiol a'ch bod wedi llwyddo i barhau gyda'ch dysgu dros y cyfnod diweddar o hunan ynysu? Gwych oedd clywed am ymdrechion arbennig llawer iawn ohonoch gan y staff - diolch am hyn! Nid cystal yw clywed am ddiffyg ymrwymiad a diogi ychydig ddisgyblion yn unig. Gyda'r dulliau asesu newydd ar gyfer deilliannau a chymwysterau eleni, gaf i bwysleisio unwaith eto bwysigrwydd ymdrech ardderchog a chyson yn eich pynciau i gyd eleni.

Rydym yn adolygu ein mesurau diogelwch Cofid yn barhaus ac wedi penderfynu **creu dwy swigen ar gyfer y 6ed - un ar gyfer blwyddyn 12eg ac un hollol ar wahân ar gyfer blwyddyn 13eg**. Yn naturiol y bwriad yw osgoi gorfod hunan ynysu'r holl 6ed eto os fydd yna achos positif arall yn un o'r blynyddoedd yma. Felly, gweler y **trefniadau newydd isod y bydd RHAID i bob un o ddisgyblion y 6ed eu dilyn o'r 26/11/20**.

MESURAU COFID NEWYDD Y 6ED:

- Mae caniatâd gan ddisgyblion y 6ed i **fynychu'r ysgol ar gyfer eich gwersi yn unig**, os oes cludiant diogel gennych i'w ddefnyddio yn ystod y dydd.
- Wrth gwrs, **nid yw presenoldeb i'r gwersi yn opsiynol** ac rydym yn disgwyl i **bob un disgybl i fynychu bob un wers os ydych yn iach i wneud**.
- Yn ogystal, os ydych i mewn ar gyfer gwrs 1, rhaid i chi hefyd fynychu'r sesiwn gofrestru fel arfer.
- Mae caniatâd gan ddisgyblion sydd yn defnyddio bysys ysgol i fod ar y safle drwy'r dydd, os nad yw'n bosib cyrraedd adref yn ddiogel.
- Ni fydd caniatâd gan ddisgyblion i adael y safle a dychwelyd yn ystod yr un diwrnod ysgol.

Mewn gwersi:

- Ni ddylid cymysgu dosbarthiadau 12 a 13eg ar gyfer dysgu'r cwricwlwm.
- Os oes rhai disgyblion 13eg yn mynychu dosbarthiadau 12eg (e.e. Ail-eistedd unedau bl.12eg; pigo i fyny AS newydd...), bydd **angen sicrhau bod y ddwy flwyddyn 2 fetr o'i gilydd ar bob adeg yn ystod y wers**, a hefyd sicrhau awyru da, diheintio dwylo, diheintio desgiau...

Tu allan i wersi:

- **Bydd bl.12eg yn unig â chaniatâd i ddefnyddio'r lolfâ**, wedi ei addasu, ar gyfer lle i weithio / bwyta rhwng gwersi.
- **Bydd bl.13eg yn unig â chaniatâd i ddefnyddio'r ystafell** waith fel ardal i weithio / bwyta rhwng gwersi.
- Ni fydd caniatâd gan ddisgyblion o'r 2 flynedd i gymysgu yn ystod gwersi neu yn ystod cyfnodau rhydd.
- Bydd disgwyl i bob disgybl gymryd cyfrifoldeb dros ddiheintio eu hardaloedd gweithio - desgiau a chyfrifiaduron neu gliniaduron.

Os oes unrhyw gwestiwn gennych, peidiwch ag oedi i gysylltu â ni yn yr ysgol.

Yn ddiwyll,

Simon Davies



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: yg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



**BUDDSODDWYR
MEWN POBL**

Aur

